

22 MAWRTH 2021

## CYNGOR ABERTAWA YN YMRWYMO I AILGODI’N GRYFACH GYDAG ADDEWID CREU LLEOEDD

Mae Cyngor Abertawe wedi ymuno â Chyngor Casnewydd fel yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i ymrwymo i ailgodi’n gryfach drwy lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Cafodd y newyddion ei groesawu gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Hannah Blythyn. Dywedodd: “Fel ein cynllun cenedlaethol, mae Cymru’r Dyfodol yn cynnwys gofyniad i’r sector cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth a chymhwys egwyddorion creu lleoedd i gefnogi’r broses o adfywio ar draws Cymru. Mae lansio ein ‘cronfa creu lleoedd’ £15.2 miliwn yn rhan allweddol o’r strategaeth hon; gan helpu canol trefi Cymru i ailgodi’n gryfach. Mae’n rhan o’n rhaglen Trawsnewid Trefi £110m ehangach, sy’n ariannu prosiectau er budd cymunedau lleol yng nghanol ein trefi a’n dinasoedd.

“Mae’r pecyn cymorth wedi’i gynllunio ar y cyd ag awdurdodau lleol Cymru. Un awdurdod arweiniol o fewn pob rhanbarth sy’n gweinyddu’r gronfa gyda Chyngor Abertawe yn gyfrifol am ariannu dyraniadau yn ne orllewin Cymru. Dyna pam ei bod mor galonogol gweld yr awdurdodau lleol yn addo eu cefnogaeth i greu lleoedd da drwy lofnodi’r Genhedlaeth Creu Lleoedd. Mae’n ymrwymiad sydd wir yn gosod yr agenda ar gyfer pob datblygiad o fewn y rhanbarth yn y dyfodol.”

Dywedodd Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyngor Abertawe ar gyfer Cyflenwi a Gweithrediadau, David Hopkins: “Mae’r pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau a galw sylweddol ar fywydau a bywoliaeth cynifer ohonom, ond mae hefyd wedi dangos i ni pa mor bwysig yw’r lleoedd lle rydyn ni’n byw i ansawdd ein bywyd.

“Wrth i ni edrych i’r dyfodol ac ailgodi’n gryfach, mae ein ffocws ar gymhwyso egwyddorion creu lleoedd i helpu twf ac adfywiad ein cymunedau. Yn Abertawe, rydym yn benderfynol o adeiladu lleoedd cynaliadwy sy’n gwella iechyd a llesiant; cymryd rôl rhagweithiol a gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a’n partneriaid datblygu i wneud yr hyn sy’n iawn i drigolion Abertawe. Cyrhaeddodd ein Cynllun Datblygu Lleol restr fer y Gwobrau RTPI cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Cynllunio yn 2020 fel Fframwaith Creu Lleoedd arloesol a fydd yn llywio ein dyheadau twf uchelgeisiol. Mae’r Cyngor wedi bod ar flaen y gad wrth hyrwyddo’r agenda creu lleoedd ac mae llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru yn adlewyrchiad pellach o’n hymrwymiad.”

Dyweddod Jen Heal, Ymgynghorydd Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru: “Mae gan greu lleoedd rôl allweddol wrth wneud Cymru yn iachach, yn decach ac yn fwy llewyrchus. Mae'n siapio'r lleoedd rydyn ni'n byw ynddyn nhw, lle rydyn ni'n gweithio, sut rydyn ni'n teithio ac ansawdd yr amgylchedd o'n cwmpas. Mae hefyd yn sicrhau bod y datblygiad cywir yn y lle iawn.

“Dyna pam mae Cymru'r Dyfodol mor bwysig gan ei fod yn cynnig fframwaith cenedlaethol lle gall partneriaid ganolbwyntio ar gyflawni uchelgeisiau mawr wrth i ni ddatblygu ac adfywio ein dinasoedd, trefi a phentrefi. Mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru tan 2040 ac mae'n cynnwys gofyniad i'r sector cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth a chymhwyso egwyddorion greu lleoedd i gefnogi twf ac adfywio ledled Cymru. Dyna pam ein bod yn falch o ychwanegu Cyngor Abertawe at y rhestr o'r rheini sydd wedi llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd – maen nhw'n arwain y ffordd ymhlith awdurdodau lleol ledled Cymru i ymrwymo i greu lleoedd da.

“Mae ein Siarter Creu Lleoedd wedi'i alinio'n gadarn gyda Cymru'r Dyfodol ac yn adeiladu ar gryfhau'r pwyslais ar greu lleoedd mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru. Mae'r penderfyniadau cynnar a wnaed ar lefel strategol yn hollbwysig wrth baratoi ar gyfer creu lleoedd.”

Datblygwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru - grŵp amlddisgyblaethol sy'n cynrychioli proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Mae'n cynnwys ymrwymiad gan 70 o lofnodwyr, gan gynnwys datblygwyr, tirfeddianwyr a chyrrff cyhoeddus sydd wedi addo i:

- Cynnwys y gymuned leol wrth ddatblygu'r cynigion
- Dewis lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiad newydd
- Blaenoriaethu cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Creu strydoedd a mannau cyhoeddus, diogel a chroesawgar sydd wedi'u diffinio
- Hyrwyddo cyfuniad cynaliadwy o ddefnyddiau i wneud lleoedd yn fywiog
- Gwerthfawrogi a pharchu rhinweddau a hunaniaeth unigryw a phositif lleoedd sy'n bodoli'n barod.

Gwybodaeth bellach ar gael yn <https://dcfw.org/placemaking/>

GORFFEN